| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **Dyddiad:** | 20 Mawrth 2024 |
| **Teitl yr adroddiad:** | Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2024 i 2025 |
| **Adroddiad gan:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Rhoi gwybod am benderfyniadau terfynol y Panel ar gyfer 2024 i 2025 |

## 1.0 Cefndir

Mae Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn gyfrifol am bennu'r lefelau a'r trefniadau ar gyfer tâl aelodau'r sefydliadau canlynol:

- Prif gynghorau – cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol
- Cynghorau tref a chymuned
- Awdurdodau parciau cenedlaethol
- Awdurdodau tân ac achub
- Cyd-bwyllgorau corfforaethig

Mae'r Panel yn gorff annibynnol ac mae'n gallu gwneud penderfyniadau am:

- y strwythur cyflog sy'n pennu tâl yr aelodau
- y math o lwfansau a natur y lwfansau hynny sydd i'w talu i aelodau
- p'un a yw'r taliadau'n orfodol neu'n caniatáu lefel o hyblygrwydd lleol
- drefniadau o ran absenoldeb teuluol
- drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â phenderfyniadau'r Panel

Mae'n ofynnol, yn ôl y gyfraith, i'r sefydliadau a restrir uchod weithredu'r penderfyniadau a wnânt.

Fe gyflwynwyd adroddiad blynyddol drafft y Panel ar gyfer 2024/25 i'r Pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 29 Tachwedd 2023.  Cyhoeddwyd yr adroddiad terfynol ar 28 Chwefror 2024 a bydd yn weithredol o Ebrill 2024.


Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

## 2.0 Penderfyniadau terfynol y Panel ar gyfer 2024-2025

### 2.1 Taliadau i aelodau etholedig

Mae'r tabl canlynol yn rhestru'r 15 deilydd swydd sydd â hawl i dderbyn uwch gyflog a chyflog dinesig yn 2023-2024 (yn unol â phenderfyniad y Cyngor llawn ar 23 Mai 2023) ac yn cymharu'r cyflogau cyfredol â'r cyflogau a fydd yn daladwy o Ebrill 2024:

| Rhestr Taliadau i Aelodau | 2023-2024 | 2024-2025 |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol i'r holl aelodau, sydd wedi'i gynnwys yn yr holl uwch gyflogau a chyflogau dinesig isod | £17,600 | **£18,666** |
| **Band 1**: | | |
| Arweinydd | £56,100 | **£59,498** |
| Dirprwy Arweinydd | £39,270 | **£41,649** |
| **Band 2:** | | |
| Aelodau'r Pwyllgor Gwaith | £33,660 | **£35,699** |
| **Band 3:** | | |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | £26,400 | **£27,999** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio | £26,400 | **£27,999** |
| Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio a Gorchmynion | £26,400 | **£27,999** |
| Cadeirydd y Cyngor | £26,400 | **£27,999** |
| **Band 4:** | | |
| Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £26,400 | **£27,999** |
| **Band 5:** | | |
| Is-Gadeirydd y Cyngor | £21,340 | **£22,406** |

### 2.2 Uwch Gyflogau a Chyflogau Dinesig

Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau sy'n daladwy ("y cap") yn aros yn ei le yn 2024-25, hy cyfanswm o 17 ar gyfer Ynys Môn, gan gynnwys cyflogau dinesig.

Bydd angen i'r Cyngor llawn gadarnhau nifer yr uwch gyflogau a fydd yn daladwy yn 2024-25 yn ei gyfarfod ym mis Mai 2024.

### 2.3 Taladau i aelodau cyfetholedig

Ar hyn o bryd, dylai aelodau cyfetholedig gael cydnabyddiaeth ariannol ar sail diwrnod neu hanner diwrnod. Fodd bynnag, mae'r Panel wedi nodi newid tuag at ddefnydd amlach o gyfarfodydd a/neu gyrsiau hyfforddiant ar-lein. Mae rhain yn aml yn fyr ac mae pwyllgorau'n tueddu i gyfarfod yn fwy rheolaidd.

Felly, mae'r Panel wedi penderfynu y dylid rhoi hyblygrwydd lleol i'r swyddog perthnasol benderfynu pryd y bydd yn briodol cymhwyso cyfradd diwrnod neu hanner diwrnod, neu ddefnyddio cyfradd fesul awr lle mae'n gwneud synnwyr cyfuno nifer o gyfarfodydd byr.

Mae'r Panel hefyd yn bwriadu darparu enghreifftiau o arferion da, fel arweiniad.

| **Rôl** | **Fesul awr** | **Hyd at 4 awr** | **4 awr a throsodd** |
|---|---|---|---|
| Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio | £33.50 | £134 | £268 |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau tref a chymuned | £29.75 | £119 | £238 |
| Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau, pwyllgorau craffu addysg a throsedd ac anrhefn a phwyllgorau archwilio | £26.25 | £105 | £210 |

### 2.4 Taliadau eraill

Gan na wnaed unrhyw newidiadau eraill o ran taliadau, bydd penderfyniadau blaenorol yn dal i sefyll.

## 3.0 Argymhelliad

Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r penderfyniadau o fewn adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer 2024 i 2025 (Chwefror 2024)

Papur cefndirol: Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2024-2025 (Chwefror 2024):
Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2024 i 2025 [HTML] | LLYW.CYMRU